**Rhif:** WG39525

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

Is-ddeddfwriaeth arfaethedig dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mawrth 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 5 Mai 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

# Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch *Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2019* a wnaed dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio / postio ymatebion yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod fel eu bod yn cyrraedd erbyn **5 Mai 2020** fan hwyraf.

**Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**

- Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad – Ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol (Cymru) 2020
- Canllawiau ar sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Gellir cael gafael ar y dogfennau uchod ar wefan Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft

**Gellir cael fersiwn print mawr, fersiwn Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon a'r dogfennau a restrir uchod ar gais.**

**Manylion cyswllt**


I gael mwy o wybodaeth:
Tîm Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3 NQ

Cyfeiriad e-bost: post16aln@gov.wales
Rhif ffôn: 03000 251500


WG_Education

Facebook/EducationWales

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Sut i ymateb i'r ymgynghoriad | 2 |
| Y Rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol | 2 |
| Y camau nesaf | 3 |
| Ymgynghoriad: Rheoliadau drafft Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol | 4 |

# Cyflwyniad

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018') gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2018.

Mae Deddf 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ('ADY'). Bydd yn disodli deddfwriaeth gyfredol ar anghenion addysg arbennig ('AAA') ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Deddf 2018, yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar ADY ('y Cod ADY') ac mae'n darparu nifer o bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

Yn unol â Deddf 2018, bydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i baratoi a chadw cynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydyw mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, os penderfynir bod hyn yn angenrheidiol yn unol â rheoliadau[1] i wneud hynny, er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person ifanc o safbwynt addysg neu hyfforddiant. Os na ellir diwallu anghenion rhesymol person ifanc mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol heb i awdurdod lleol hefyd sicrhau lle mewn ysgol arbennig neu sefydliad arall, neu fwyd a llety, rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth honno yn y cynllun datblygu unigol. Gall 'sefydliadau eraill' gynnwys 'sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol'.

Mae Adran 56 Deddf 2018 yn pennu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chadw rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr, a phennu mewn rheoliadau, ymhlith pethau eraill, y gofynion mae'n rhaid eu bodloni er mwyn bod ar y rhestr. Dim ond os caiff sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ei gynnwys ar y rhestr y bydd modd i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg neu hyfforddiant ynddo i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adran 56 Deddf 2018 yn mynd yn ei blaen i ddiffinio sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 20xx a wneir dan adran 56 Deddf 2018.

Mae canllawiau drafft yn ymwneud â'r rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, er mwyn cynorthwyo ymgyngoreion i ddeall sut bydd y rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith.

Fe fydd gan sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, arolygiaethau addysg ac arolygiaethau gofal fudd yn y rheoliadau hyn. Ymhellach, fe fyddai Llywodraeth Cymru yn croesawu barn gan unrhyw un arall â budd.

[1] I'w wneud dan adran 46 Deddf 2018

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Gwahoddir ymgyngoreion i ymateb i gwestiynau a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori hon. Ceir ffurflen ymateb ar wahân.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r amser a dreulir a'r cyfraniadau gan bob un o'r rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd sy'n cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru a byddant yn cael eu defnyddio i fireinio a llywio'r rheoliadau terfynol.

## Y Rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol

Dan Ddeddf 2018, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr, a'i diwygio o dro i dro. Y nod trwy gael rhestr gyhoeddedig o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr yw helpu i roi sicrwydd i awdurdodau lleol y bydd y ddarpariaeth addysg a gynigir yn y sefydliadau hynny yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant.

Mae Deddf 2018 yn diffinio sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol fel sefydliad sy'n darparu addysg neu hyfforddiant i bobl dros oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi'i drefnu'n arbennig er mwyn darparu addysg neu hyfforddiant o'r fath i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, ni all sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol fod yn:

(a) sefydliad yn y sector addysg bellach,
(b) ysgol annibynnol a gynhwysir ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru,
(c) sefydliad addysgol annibynnol sydd wedi'i gynnwys ar y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr neu'n
(ch) Academi 16 i 19.

Mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

(a) cynnwys y rhestr;
(b) y gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw fel amod o fod ar y rhestr;
(c) y gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw tra cynhwysir y sefydliad ar y rhestr (yn cynnwys gofynion yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo trefniadau yn y sefydliad ynghyd â chymeradwyo unrhyw newidiadau i drefniant/trefniadau o'r fath);
(ch) tynnu enw'r sefydliad oddi ar y rhestr; a
(d) hawliau i berchnogion sefydliadau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau –
    (i) i wrthod rhestru sefydliad;
    (ii) i dynnu enw sefydliad oddi ar y rhestr;
    (iii) i beidio â chymeradwyo trefniadau, neu beidio â chymeradwyo newidiadau i drefniadau, o fewn y sefydliad.

## Y camau nesaf

Bwriedir i'r rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol fynd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2020 a chael eu rhoi mewn grym yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Bydd hyn yn digwydd cyn rhoi darpariaethau eraill yn ymwneud â rheoliadau a Deddf 2018 ar waith o fis Medi 2021. Pwrpas hyn yw rhoi amser i'r sefydliadau addysg bellach arbennig hynny sydd â chytundeb cyllido ar hyn o bryd â Gweinidogion Cymru wneud cais i fod yn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol a gweld beth fydd canlyniad eu ceisiadau cyn i Ddeddf 2018 gael ei rhoi ar waith.

I gael mwy o wybodaeth am roi Deddf 2018 ar waith, gweler:
https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru

# Ymgynghoriad: Rheoliadau drafft Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol

1.1 Caiff cyfanswm o 11 o reoliadau eu pennu yn y rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol. Mae'r rhain yn gosod gofynion ar sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol, Gweinidogion Cymru a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

1.2 Caiff manylion am enwi, dehongli a chychwyn eu pennu yn rheoliadau 1 a 2. Nid ydym wedi gofyn unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r rhain.

1.3 Mae Rheoliad 3 yn nodi'r 'wybodaeth' a'r 'trefniadau' mewn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a fydd yn cael eu cynnwys ar y rhestr gyhoeddedig. Mae'r 'wybodaeth' yn nodi'r manylion cyswllt a pha un a yw sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn darparu llety preswyl. Bydd 'trefniadau' sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru (fel y nodir yn rheoliad 4). Mae'r trefniadau'n cynnwys manylion am ystod oedran a nifer y bobl mae'r sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn darparu ar eu cyfer, perchennog y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, a'r math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r wybodaeth a'r trefniadau mae'n ofynnol eu cynnwys ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol?**

1.4 Caiff y gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw fel amod o fod ar y rhestr eu nodi yn rheoliad 5. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i drefniadau sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ynghyd â darparu tystiolaeth i Weinidogion Cymru a all eu bodloni ynghylch hyfywedd ariannol y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, ansawdd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir (gellir cyflwyno tystiolaeth sydd wedi deillio o adroddiadau archwilio perthnasol), ac unrhyw wybodaeth arall y gall Gweinidogion Cymru fod ei hangen yn ymwneud â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol neu'r modd y caiff y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ei reoli neu ei lywodraethu.

1.5 Mae Rheoliad 6 yn nodi'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw tra bydd y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol wedi'i gynnwys ar y rhestr. Bydd angen gwybodaeth debyg i'r wybodaeth dan reoliad 5, ar gais Gweinidogion Cymru.

**Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno â'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw fel amod o fod ar y rhestr a'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw tra bydd sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol wedi'i gynnwys ar y rhestr?**

1.6 Caiff y weithdrefn ar gyfer ceisio newid trefniadau mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ei nodi yn rheoliad 7, ar ffurf cais ysgrifenedig, ac yn achos newid mewn perchennog, y perchennog newydd arfaethedig a ddylai wneud y cais hwn.

**Cwestiwn 3 – A yw'r gweithdrefnau ar gyfer newid trefniadau'r sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn briodol?**

1.7 Mae Rheoliad 8 yn nodi y gall perchennog sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru i dynnu'r sefydliad hwnnw oddi ar y rhestr o

sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol. Mae hyn yn cynnwys yr amserlenni cysylltiedig a'r gofynion ar Weinidogion Cymru i hysbysu partïon perthnasol yn unol â hynny.

**Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais i dynnu sefydliad oddi ar y rhestr?**

1.8 Mae Rheoliad 9 yn nodi'r pethau y gall Gweinidogion Cymru eu hystyried wrth benderfynu a ddylid tynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr. Bydd yr ystyriaethau hyn yn cynnwys tystiolaeth yn ymwneud â hyfywedd ariannol y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, adroddiadau perthnasol sy'n gysylltiedig â rheoliad 5, tystiolaeth a gyflwynir ar gais Gweinidogion Cymru yn unol â rheoliad 6, ac unrhyw bryderon difrifol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu derbyn ynghylch y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

1.9 Caiff y weithdrefn ar gyfer tynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr ei nodi yn rheoliad 10, a chynhwysir yr amserlenni cysylltiedig a'r gofynion ar Weinidogion Cymru i hysbysu'r partïon perthnasol ynglŷn â'u penderfyniad.

**Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno â'r ystyriaethau i dynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr a'r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny?**

1.10 Mae Rheoliad 11 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru. Bydd yr apeliadau'n ymwneud â phenderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cynnwys sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ar y rhestr, i dynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr, i beidio â chymeradwyo trefniadau mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol neu i beidio â chymeradwyo newidiadau i'r trefniadau. Ymhellach, mae'r rheoliad hwn yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno apêl.

1.11 Caiff proses benderfynu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas ag apeliadau ei nodi yn rheoliad 12.

**Cwestiwn 6 – A yw'r gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau yn briodol?**